

# Rhaglen Gyflawn



**Gwasanaeth Democratiaeth  
Swyddfa'r Cyngor  
CAERNARFON  
Gwynedd  
LL55 1SH**

Y Cyngor – 3 Hydref, 2024  
Eitem 6 - Cwestiynau

## **EITEM 6 – CWESTIYNAU**

### **(1) Cwestiwn Y Cynghorydd Angela Russell**

O ystyried fod hinsawdd Cymru yn mynd yn wlypach o flwyddyn i flwyddyn, hoffwn ofyn, pa gamau mae Cyngor Gwynedd yn gymryd i uwchraddio y lon A499 rhwng Pwllheli a Llanbedrog. Byddai hyn yn arbed trigolion Llanbedrog, Abersoch, Botwnnog Sarn ac Aberdaron rhag defnyddio lonydd cul heibio Cefn Llanfair a Rhydyclafdy ayyb sy'n golygu tagfeydd wrth i lorïau a bysus ddod wyneb yn wyneb ar y lonydd cul yma.

#### **Ateb – Aelod Cabinet Prifffyrdd a Bwrdeistrefol ac Ymgynghoriaeth Gwynedd, Y Cynghorydd Berwyn Parry Jones**

Cyfoeth Naturiol Cymru sydd yn arwain ar y Prosiect Rheoli Perygl Llifogydd Pwllheli. Maent yn gweithio ar brosiect i ddarganfod atebion i reoli perygl llifogydd hirdymor ar gyfer cymuned Pwllheli, ochr yn ochr â darparu cyfleoedd amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd ehangach.

Mae rhannau o Bwllheli sydd yn cynnwys rhan o'r ffordd A499 tuag at Lanbedrog mewn perygl o lifogydd o afonydd ar môr. Yr ydym yn rhan o'r bartneriaeth gyda Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) er edrych ar opsiynau i'r ardal ac mae y rhestr hir oedd wedi ei edrych arno a'u gwerthuso nawr wedi ei ddatblygu i restr fer i fwrw ymlaen gyda'r gwaith.

Yr ydym wedi derbyn diweddariad gan CNC sydd yn nodi bod yr achos busnes strategol wedi cael ei gymeradwyo, a byddent yn symud ymlaen i'r cyfnod achos busnes amlinellol er mwyn edrych ar opsiynau yn fwy manwl. Yr ydym yn disgwyl derbyn diweddariad o ran rhaglen CNC ar y gwaith hwn at ddiwedd yr Hydref.

Fel rhan o ymgynghoriad strategol, 'roedd rhestr fer o opsiynau bras wedi eu llunio - bydd rhain yn cael eu hasesu ymhellach fel rhan o'r gwaith mwy manwl. I ymateb i gwestiwn y Cynghorydd, mae codi lefel yr A499 yn fesur sydd yn cael ei ystyried fel opsiwn ychwanegol i'r prif opsiynau er mwyn delio gyda llifogydd o'r afon ar ochor orllewinol ardal yr astudiaeth. Mae gwaith pellach ar yr opsiynau i'w gwneud cyn y gellid adnabod cynllun gwelliant i'r ffordd yma. Mae linc i wefan CNC ar gynllun Pwllheli wedi ei gynnwys.

[Managing flooding in Pwllheli - Natural Resources Wales Citizen Space - Citizen Space \(cyfoethnaturiol.cymru\)](https://www.cyfoethnaturiol.cymru/en/management/Managing-flooding-in-Pwllheli-Natural-Resources-Wales-Citizen-Space-Citizen-Space)

### **(2) Cwestiwn Y Cynghorydd Huw Rowlands**

Pa ddefnydd a wneir gan adran Prifffyrdd, Peirianeg ag YGC Cyngor Gwynedd o gontractwyr allanol, a pha fonitro sy'n digwydd er mwyn sicrhau safon, gwerth am arian a chydymffurfiaeth â'u cytundebau?

#### **Ateb – Aelod Cabinet Prifffyrdd a Bwrdeistrefol ac Ymgynghoriaeth Gwynedd, Y Cynghorydd Berwyn Parry Jones**

Mae'r Adran Prifffyrdd, Peirianeg ac YGC, Cyngor Gwynedd yn defnyddio amryw o gontractwyr allanol i gynnal gwaith tu hwnt i allu'r gweithlu mewnol neu waith rhaglunedig ar raddfa uchel (e.e. gwaith ail-wynebu ffyrdd), ynghyd â gwaith ar gynlluniau ar raddfa mawr, sy'n cymryd amser sylweddol i'w cwblhau a ble all amharu ar allu ein gweithlu

mewnol i gyflawni gwaith craidd dydd i ddydd. Esiamplau o ddefnydd o gontractwyr allanol yw cynnal ymylon ffyrdd, ail-wynebu ffyrdd, cynlluniau amddiffyn llifogydd, gwaith arbenigol ar gynnal pontydd ac ail-osod llinellau marciau ffordd.

Mae'r Adran yn sicrhau gwerth am arian drwy dendro y gwasanaethau yma drwy ffynonellau fel 'Sell2Wales' a thendrau uniongyrchol os yn waith arbennig.

Bydd monitro yn cael ei wneud gan swyddogion prosiect a/neu beirianwyr safle, sy'n gyfarwydd a'r maes a gofynion y contract penodol. Ar adegau, mae problemau yn codi gydag argaeledd y contractwyr sydd yn amharu ar gadw at rhaglenni gwaith. Mae rhai cytundebau hefyd yn ddibynnol ar becynnau gwaith er sicrhau y pris gorau.

Mae'r Adran yn cario allan gwaith ar hyn o bryd i edrych ar faterion megis darparu mwy o'r gwaith uchod yn fewnol. Bydd hyn yn sicrhau gwell rheolaeth i raglenni gwaith gan edrych hefyd i ymestyn arbenigedd ein gweithlu mewnol.

### (3) Cwestiwn Y Cynghorydd Rhys Tudur

O ystyried sylwadau gan Swyddogion ac Aelod Cabinet y Cyngor hwn bod y drefn ar gyfer ceisiadau grantiau teithio llesol yn anffafrio ardaloedd gwledig, pa foddion y mae'r Cyngor hwn wedi eu defnyddio i bwysu ar Lywodraeth Cymru i newid y drefn ac i ba raddau y mae'r pwysu wedi bod yn effeithiol?

#### **Ateb – Y Dirprwy Arweinydd, Y Cynghorydd Nia Jeffreys (Yn absenoldeb yr Aelod Cabinet Amgylchedd, Y Cynghorydd Dafydd Meurig)**

Diolch i'r Cynghorydd Rhys Tudur am y cwestiwn.

Gweler isod ac yn atodol esiamplau o ymgysylltu sydd wedi bod ar faterion yn ymwneud â threfniadau a meini prawf sy'n gysylltiedig â chynlluniau Teithio Llesol yng Nghymru.

Mae'r llythyr a'r ymateb i'r ymgynghoriad (gweler Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Trafnidiaeth isod) yn amlinellu'r materion sydd o bryder ynglŷn â gallu siroedd gwledig i fod yn llwyddiannus yn sicrhau grantiau i wella isadeiledd ac ar y raddfa sydd yn cwrdd â dyheadau a disgwyliadau lleol o fewn ein cymunedau.

#### **Bwrdd Teithio Llesol**

Llythyr yn ddyddiedig 09 Chwefror 2024 gan y Cyng. Dyfrig Siencyn, Arweinydd Cyngor Gwynedd, at Dr Dafydd Trystan Davies, Cadeirydd y Bwrdd Teithio Llesol.



20240209 - Teithio  
Llesol.pdf

#### **Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Trafnidiaeth**

Ymateb Cyngor Gwynedd i'r ymgynghoriad ar y Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Trafnidiaeth a gafodd ei gyflwyno ar 14 Hydref 2022.



Ymateb Cyngor  
Gwynedd NTDP.pdf

## Fforwm Wledig CLILC

Mae'r negeseuon hyn yn gyson gyda rhai sydd wedi codi o fewn Fforwm Wledig Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a dderbyniodd y cyflwyniad canlynol yn eu cyfarfod ar 04 Mawrth 2024.



Fforwm Gwledig  
CLILC 4 Mawrth 2024

Nid oes newid sylweddol wedi bod ym meini prawf y rhaglen Teithio Llesol. Mae Cyngor Gwynedd yn parhau i gyflawni gwelliannau i ddarpariaeth isadeiledd Teithio Llesol drwy'r ceisiadau llwyddiannus i'r Gronfa Trafnidiaeth Leol a'r Gronfa Llwybrau Diogel Mewn Cymunedau. Mae esiamplau diweddar yn cynnwys:

### 1. Wedi cwblhau:

- Ffordd Penrhos, Bangor – Rhan 1
- Lôn Las Ogwen
- Llochesi Beics yn Ysgol Cymerau, Pwllheli
- Ysgol Godre'r Berwyn, y Bala

### 2. Gwaith datblygu cynlluniau:

- Llanrug i Gaernarfon
- Chwilog i Afonwen
- Tywyn i Aberdyfi

### 3. Ar waith

£500,000 o arian Craidd i ddatblygu cynlluniau Teithio Llesol yng Ngwynedd o'r Gronfa Teithio Llesol.

Mae'r cynlluniau canlynol wedi'u cymeradwyo ar gyfer eu datblygu ymhellach:

- Llochesi Beics mewn Ysgolion
- Datblygiad cynllun Teithio Llesol Bethel i Caernarfon
- Datblygiad cynllun Chwilog i Afonwen
- Gwelliannau i lwybr presennol Ysgol Llanllechid
- Datblygiad cynllun Y Ffôr i Bwllheli
- Cyfrianiad tuag at ddarpariaeth Teithio Llesol Ysgol Treferythyr, Cricieth
- Datblygiad cynllun Ysgol Maenofferen a Ffordd Glyndwr
- Datblygiad cynllun teithio Llesol Llanrug i Gaernarfon

Mae £900,000 hefyd wedi ei sicrhau gan y Llywodraeth ar gyfer gwireddu ail wedd cynllun Teithio Llesol Ffordd Penrhos, Bangor

Yn ogystal, rydym wedi denu £440,000 ar gyfer cynlluniau Llwybrau Diogel mewn Cymunedau. Bydd yr arian yma yn cael ei ddefnyddio i gyflwyno gwelliannau y tu allan i Ysgol Treferythyr, Cricieth ac Ysgol Rhostryfan.

Mae cyfanswm y swm a bennir ar gyfer grantiau o'r fath yn cael ei gadarnhau ar sail blwyddyn i flwyddyn a gyda hyn mae'r cyfanswm a'r dyraniadau yn medru newid.

#### **(4) Cwestiwn Y Cyngorydd Jina Gwyrfa**

Dosberthir tai cymdeithasol ar rent yng Ngwynedd trwy restr Opsiynau Tai y Cyngor mewn cydweithrediad â'r asiantaethau tai, Adra, Cynefin ayyb. Beth yw'r trefniadau i sicrhau hawliau a chyfle cyfartal i denantiaid, yn benodol ym materion cytundebol?

##### **Ateb – Aelod Cabinet Tai, Y Cyngorydd Craig ab Iago**

Ar 1 Rhagfyr 2022 newidiodd Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 y ffordd y mae pob landlord yng Nghymru yn rhentu ei eiddo, gan wella sefyllfa rhentu, rheoli a byw mewn cartrefi rhent yng Nghymru.

Bellach mae dyletswydd gyfreithiol ar gymdeithasau tai i roi contract meddiannaeth (contract diogel) i denantiaid yn cynnwys yr holl fanylion am y pethau y mae'n rhaid i ddeiliad y contract eu gwneud os yw am aros yn ei gartref, fel talu rhent i'r landlord a gwneud yn siŵr ei fod yn gofalu am ei gartref. Mae hefyd yn cynnwys y pethau y mae'n rhaid i'r landlord eu gwneud, fel gwneud yn siŵr bod y cartref yn ddiogel ac yn ffit i bobl fyw ynddo. Mae'r contract meddiannaeth hefyd yn dweud pryd a sut y gallai landlord ofyn i ddeiliad y contract adael ei gartref.

Mae canllawiau manwl wedi'u cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru sy'n cynnwys ffurf a pha fanylion sydd angen eu cynnwys mewn contractau diogel ac mae disgwyliad i bob cymdeithas dai ddilyn y drefn hon er mwyn cydymffurfio â gofynion y Ddeddf.

#### **(5) Cwestiwn Y Cyngorydd Gruffydd Williams**

Yng ngoleuni cynigion papur gwyn Llywodraeth Cymru i wneud cyswllt lleol yn llai o ystyriaeth ar gyfer tai cymdeithasol ac o gofio bod cwynion cyson ar lawr gwlad nad yw siarad Cymraeg na bod yn wreiddiedig mewn cymuned yn ystyriaeth ddigonol parthed cael blaenoriaeth i dŷ cymdeithasol yma yng Ngwynedd, sy'n gadarnle'r iaith, beth yn union yw'r ymdrechion sy'n cael eu gwneud gan y Cabinet i geisio newid y drefn flaenoriaethu hynod niweidiol yma?

##### **Ateb – Aelod Cabinet Tai, Y Cyngorydd Craig ab Iago**

Mae cysylltiad lleol yn un o'r categorïau blaenoriaeth ar gyfer ceisiadau ymgeiswyr, ac mae Cyngor Gwynedd eisoes yn gwthio'r ffiniau yma i'r eithaf oddi mewn i'w Bolisi Gosod Tai i geisio gwarchod ei gymunedau a'u nodweddion.

Yn unol ag argymhellion y Papur Gwyn a gyhoeddwyd yn 2023, disgwyliar y bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried newidiadau deddfwriaethol ar ddigartrefedd a dyrannu tai cymdeithasol. Rhagwelir i'r ddeddfwriaeth newydd yma gael ei chyflwyno rywbryd yn

2026, a phe byddai'r Llywodraeth yn adolygu'r gyfraith neu'r arweiniad ar hyn, yna bydd Cyngor Gwynedd yn ystyried effaith yr elfen yma ar ei bolisiau.

Mae'r Cyngor eisoes wedi darparu ymateb ffurfiol i ymgynghoriad cyhoeddus a gynhaliwyd gan y Llywodraeth ac wedi datgan pryder ar sawl achlysur ynghylch materion sy'n cael eu hamlygu yn y Papur Gwyn, gan gynnwys newidiadau posibl i'r cyswllt lleol a'r effaith ar ein gwasanaethau a phobl Gwynedd.

## **(6) Cwestiwn Y Cynghorydd Richard Glyn Roberts**

O ystyried:

- ei bod yn ofynnol bod pob penderfyniad a wneir a phob polisi a gyflwynir gan y Cyngor hwn yn destun asesiad effaith ar y Gymraeg
- a'i bod yn dilyn o hynny bod y mesurau i reoli tai gwyliau a'r polisi gosod tai cymdeithasol, fel ei gilydd, wedi bod yn destun asesiad o'r fath
- ac (i) nad oes casglu gwybodaeth am iaith ymgeiswyr ar y rhestr aros am dai cymdeithasol a (ii) ein bod yn dal i ddisgwyl am ddata ar effaith ieithyddol y premiwm yng nghyd-destun symudiadau o dai gwyliau i brif breswylfeydd
- ac na ellir asesu na monitro effaith heb yr wybodaeth hon
- a bod pryderon dilys ar lawr gwlad yngylch effaith y naill bolisi a'r llall ar gymunedau yn Llŷn ac Eifionydd (a Gwynedd yn ehangach, siwr o fod)

Pa fwriad sydd i gywiro'r sefyllfa hon fel na wastreffir adnoddau yn cynhyrchu asesiadau effaith yn y meysydd hyn sydd mor ddiffygiol nes rhoi'r argraff nad ydynt ond ymarferiadau soffistigedig i ystumio a chuddio gwir effeithiau, ac effeithiau posibl, y polisiau a'r penderfyniadau dan sylw?

## **Ateb – Aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol, Y Cynghorydd Menna Trenholme**

Mae Cyngor Gwynedd yn gwneud popeth o fewn eu gallu i hybu a hyrwyddo'r Gymraeg yn ein cymunedau ac yn rhoi ystyriaeth briodol i hyn wrth lunio polisiau. Rydym yn ymfalchïo ein bod wedi adolygu ein trefniadau cynnal asesiadau effaith gan gynnwys asesiadau effaith ar yr iaith Gymraeg er mwyn sicrhau ein bod yn cydymffurfio gyda'r deddfwriaethau perthnasol ac yn rhoi sylw i nodweddion cydraddoldeb, y Gymraeg ac anfantais economaidd-gymdeithasol. Datblygwyd y trefniadau presennol, gyda chydweithrediad swyddfeydd y comisiynwyr perthnasol. Byddwn yn symud i ddefnyddio fersiwn electroneg newydd yn fuan a threfnu hyfforddiant pellach i staff.

Mae yn ofynnol i'r Cyngor, dan ofynion Safonau'r Gymraeg (Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011) ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'n rhaid hefyd (dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010) ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb gwarchoddedig, sicrhau tegwch a meithrin perthnasau da ac ers Ebrill 2021 rhoi sylw dyledus i fynd i'r afael ag anfantais economaidd-gymdeithasol mewn penderfyniadau strategol. Gwneir yr holl asesiadau yn seiliedig ar y data sydd ar gael. Mae'r honiad eu bod yn ymarferiadau i ystumio a chuddio gwir effeithiau, ac effeithiau posibl, y polisiau a'r penderfyniadau dan sylw yn anghywir.

Byddwn yn parhau i gynnal asesiadau yn unol â'r gofyn cyfreithiol ac yn ystyried a oes cyfleoedd i ddatblygu a gwella hynny yn y dyfodol.